
YMATEB I DDIODDEFWYR A GOROESWYR

F1 DYDDIAD
YR EGLWYS YNG NGHYNRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

Tabl cynnwys

Ymateb i Ddiodefwyr a Goroeswyr	2
Darparu Cymorth	2
Maddeuant.....	5
Cefnogi Dioddefwyr a Goroeswyr yn y Tribiwnlys	6
Cefnogi Gweithwyr	6
Cymorth i Ddiodefwyr a Goroeswyr	6

Ymateb i Ddiodefwyr a Goroeswyr

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod yr angen i weinidogaethu'n sensitif ac yn ystyriol i ddiodefwyr a goroeswyr pob math o gamdriniaeth a niwed, boed yn y presennol neu'r gorffennol. Mae'r Eglwys wedi ymrwmo i ddarparu gofal bugeiliol priodol a chefnogol i ddiodefwyr a goroeswyr, eu teuluoedd ac unrhyw un arall sydd wedi'u heffeithio yn sgil cysylltiad â nhw. Yn benodol, gwrandewir ar unrhyw un sydd wedi dioddef camdriniaeth o fewn yr Eglwys gyda thosturi a gwyleidd-dra, o fewn amgylchedd diogel i fyfyrion ar eu profiad a chynnig cymorth a gofal i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r ymdeimlad o wella ac iachau o boen a thrawma cam-drin a niwed yn bwysig i ddiodefwyr a goroeswyr ac mae gan y rhai sy'n ceisio gweinidogaethu ochr yn ochr â nhw rôl bwysig bosibl i'w chwarae gan gynorthwyo yn adferiad diodefwyr a goroeswyr. Mae taith pob unigolyn yn unigryw, a bydd y pethau sy'n bwysig, sy'n eu helpu ac sy'n rhoi gobaith a chynhaliadaeth iddynt yn wahanol ym mhob achos. Wrth geisio darparu'r gofal a'r cymorth hwn, mae'n hanfodol bod llais y diodefwyr neu'r goroeswr yn cael ei glywed a bod ei wybodaeth am ei brofiad ei hun yn llywio ein hymateb.

Mae'n bwysig i'r Eglwys yng Nghymru gydnabod bod cam-drin a niwed yn cael ei gyflawni gan glerigion ac eraill mewn swyddi â chyfrifoldeb o fewn yr Eglwys, ac i gydnabod bod diodefwyr a goroeswyr weithiau wedi cael ymateb annigonol wrth adrodd am gamdriniaeth neu wrth geisio cymorth gan ein heglwysi. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio agor y ffordd ar gyfer creu cymunedau sy'n ddigon diogel i bawb berthyn iddynt, a lle gall diodefwyr a goroeswr adrodd eu profiadau, yn hyderus y byddant yn cael eu clywed ac yn derbyn gofal a chymorth bugeiliol.

Mae rhai diodefwyr a goroeswyr camdriniaeth wedi profi trawma pellach pan fyddant wedi gofyn am gymorth ar eu taith tuag at wellhad. Mewn rhai achosion, ac o bosibl gyda'r bwriadau gorau, mae pobl mewn eglwysi wedi ceisio gorfodi gweddiâu neu ddefodau iacháu ar y sawl sy'n ceisio cymorth. Mae gorfodi unrhyw beth neu gamgymryd cydweithrediad am gydsyniad gwybodus yn amhriodol bob amser, mae'n dangos diffyg tosturi a dealltwriaeth ac mae ganddo'r potensial i ail-achosi trawma i'r unigolyn. Nid yw'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ganddynt reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddynt, sut y gellid cyffwrdd â hwy a chan bwy. Ar adegau prin, mae gweithredoedd cam-drin pellach hefyd wedi digwydd gan y person sy'n ceisio cynnig gofal neu wellhad.

Fodd bynnag, i lawer mae gan yr eglwys rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu diodefwyr a goroeswyr i brosesu a deall yr hyn sydd wedi digwydd iddynt a chefnogi eu taith tuag at wellhad. Rhaid cymhwysu arfer da mewn gofal bugeiliol a chanllawiau ym maes diogelu i bob sefyllfa lle cynigir gweddi am iachâd, arferion iacháu a gweinidogaeth waredigaeth ym mywyd yr eglwys. Mae angen i ansawdd gofal bugeiliol, ymddygiad personol a gweinidogaeth o dan yr amgylchiadau hyn fod o'r safon uchaf a dilyn egwyddorion arferion gorau y cytunwyd arnynt.

Darparu Cymorth

Gallai dioddefwr neu oroeswr sy'n dewis siarad am ei brofiad fod yn rhannu gwybodaeth a rannodd o'r blaen, gan gynnwys gyda'r heddlu neu awdurdodau statudol eraill. Weithiau, gallai'r dioddefwr neu'r goreswr fod yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth neu niwed am y tro cyntaf a rhaid trin hyn gyda gofal a sensitifwydd penodol.

Mae unrhyw un sydd wedi goroesi camdriniaeth yn debygol o fod ag anghenion sylweddol a chymhleth hefyd. Mae profiad a llwybr y dioddefwr neu'r goroeswr at adferiad yn arbennig o gymhleth pan fydd y cam-drin yn cael ei gyflawni gan y rhai y mae wedi ymddiried ynddynt a hyd yn oed yn fwy heriol pan fydd y camdriniwr wedi dal swydd o gyfrifoldeb ysbrydol neu foisol. Pan fydd cam-drin wedi digwydd yng nghyd-destun yr eglwys, gall adferiad y dioddefwr neu'r goroeswr gynnwys y broses heriol o ailsefydlu perthynas â'r gymuned ffydd a chyda Duw.

Wrth geisio darparu cymorth a gofal bugeiliol, mae'n bwysig bod gan yr Eglwys rywfaint o ddealltwriaeth o'r anhawster y gallai dioddefwr neu oroeswr ei gael wrth siarad am ei brofiad.

Mae'n bosib y sawl rheswm pam nad yw'r dioddefwr neu'r goroeswr wedi siarad am y cam-drin o'r blaen:

- ofn na fydd ei bryderon yn cael eu clywed na'u derbyn
- pryder y gallai achosi problemau i'w deulu
- teimladau o gywilydd neu hyd yn oed gyfrifoldeb am y cam-drin
- ofn y gallai gael y bai am godi'r mater
- pryder y bydd adrodd am gam-drin yn niweidio'r Eglwys
- ofn y gallai niweidio ei berthynas â'r eglwys
- ofn y camdriniwr

Mae penderfynu pryd, sut a pham i ddatgelu camdriniaeth yn fater personol a rhaid i'r dioddefwr neu'r goroeswr gael ei glywed, ei gymryd o ddifrif a'i gefnogi ar ei delerau ei hun.

Nid y dioddefwyr na'r goroeswyr sydd ar fai am yr hyn a ddigwyddodd iddynt.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cam-drin nad yw'n ddiweddar a ddigwyddodd yn y gorffennol, gan gynnwys yn ystod plentyndod y dioddefwr neu'r goroeswr, a cham-drin sydd wedi digwydd yn llawer mwy diweddar neu sy'n parhau i ddigwydd ar adeg y datgeliad.

Gellir cysylltu â Thîm Diogelu'r Dalaith am gyngor a chymorth mewn perthynas ag ymateb i ddatgeliadau o gam-drin neu niwed, boed yn rhai nad ydynt yn ddiweddar neu'n rhai cyfoes.

Os oes gennych wybodaeth am sefyllfa ddiogelu lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol neu os oes angen sylw meddygol brys arnoch, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999 – PEIDIWCH AG OEDI.

Os ydych chi'n credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed ond nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch adran gwasanaethau cymdeithasol yr [awdurdod lleol](#).

Bydd person yn datgelu neu'n rhannu gwybodaeth am ei gamdriniaeth dim ond pan fydd yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ymddiried yn y person y mae'n siarad ag ef. Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld na rheoli'r sefyllfa neu'r amgylchiadau lle mae'r datgeliad yn digwydd ond mae pethau a all annog y dioddefwr neu'r goroeswr i siarad ac i deimlo ei fod yn cael ei gefnogi:

- **Amser a Lle**
Mae bob amser yn well gadael i ddioddefwr neu oroeswr siarad pan a ble mae'n barod, ond efallai y bydd yn bosibl ystyried materion diogelwch, preifatrwydd a chyfrinachedd. Byddwch yn ymwybodol o'r angen posibl i'r dioddefwr neu'r goroeswr gyfarfod i ffwrdd o amgylchoedd sy'n gysylltiedig â'r eglwys ac ystyriwch y dewis o ble i siarad yn ofalus.
- **Cyfrinachedd**
Mae cyfrinachedd yn bwysig o ran ennill ymddiriedaeth, ond mae'n hanfodol bod y dioddefwr neu'r goroeswr yn cael gwybodaeth glir am y terfynau a'r ffiniau ar gyfrinachedd a'r angen posibl i roi gwybod am unrhyw risg barhaus o niwed neu gamdriniaeth i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- **Preifatrwydd**
Dylid archwilio gyda'r dioddefwr neu'r goroeswr a yw'n briodol ei g/chyfarfod ar ei ben ei hun neu a ddylai person arall fod yn bresennol.
- **Disgwyliadau**
Mae'n bwysig deall yn iawn beth mae'r dioddefwr neu'r goroeswr yn ei ddisgwyl ac archwilio sut y gellid cyflawni hynny.
- **Clywed y datgeliad**
 - ceisiwch fod yn ddigynnwrf ac osgoi dangos sioc neu ofid
 - derbyniwch yr hyn y mae'r dioddefwr neu'r goroeswr yn ei ddweud gan ddangos eich bod yn ei gymryd o ddifrif
 - gwrandewch heb farn a chaniatewch i'r person ddweud ei stori
 - ceisiwch beidio â thorri ar draws neu annog y dioddefwr neu'r goroeswr i ddweud mwy
 - gofynnwch am eglurhad o'r ffeithiau ond peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol
 - sicrhewch y dioddefwr neu'r goroeswr ei bod hi'n iawn datgelu
 - cytunwch ar yr hyn y byddwch chi'n ei wneud nesaf
- **Y camau nesaf**
Mae'n bwysig cytuno beth fydd yn digwydd nesaf, a allai gynnwys cymryd camau ar unwaith i atal niwed pellach, ceisio cyngor a chymorth gan Dîm Diogelu'r Dalaith a/neu gyfeirio'r dioddefwr neu'r goroeswr at ffynonellau gofal arbenigol priodol. Gofalwch fod gan y dioddefwr neu'r goroeswr bwynt cyswllt cyson.
Ni ddylid gwneud unrhyw ymgais i gysylltu â chamdriniwr honedig o dan unrhyw amgylchiadau.
Os gwneir y datgeliad gan blentyn, rhaid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith ar unwaith, cyn i'r plentyn adael rhag ofn y bydd angen gweithredu ar unwaith.
- **Cydsyniad**
Os yw'r dioddefwr neu'r goroeswr yn oedolyn sy'n datgelu camdriniaeth a ddigwyddodd pan oedd yn oedolyn, bydd angen cydsyniad yr unigolyn ar y camau a

gymerwch, yn y rhan fwyaf o achosion. Dylid annog dioddefwyr a goroeswyr sy'n oedolion i roi gwybod am eu camdriniaeth, gyda chymorth yr eglwys os oes angen, ond ni ddylid eu dadrymuso o'u rheolaeth o'r sefyllfa. Fodd bynnag, os yw dioddefwr neu oedolyn yn datgelu camdriniaeth a brofwyd ganddo pan oedd dal yn blentyn, efallai y bydd angen rhoi gwybod i'r heddlu am y gamdriniaeth hyd yn oed heb gydsyniad neu gyfranogiad y dioddefwr neu'r goroeswr a rhaid cael cyngor gan Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, dylid cael cyngor os yw'n ymddangos bod gan yr oedolyn sy'n datgelu camdriniaeth ddiffyg galluedd i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â'r cam-drin. Rhaid adrodd am blentyn sy'n datgelu ei achos cam-drin ei hun, neu achos cam-drin plentyn arall, i Swyddog Diogelu'r Dalaith bob amser a'i gyfeirio at yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid dweud wrth blant sy'n datgelu camdriniaeth y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu ag oedolion dibynadwy er mwyn eu hamddiffyn.

- Cofnodi

Mae'n hanfodol bod cofnod manwl a chywir o ddatgeliad o gam-drin yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl wedi'i datgeliad, gan ddefnyddio union eiriau'r dioddefwr neu'r goroeswr cyn belled ag y bo modd. Rhaid i'r cofnod gael ei lofnodi, ei ddyddio a'i gadw'n ddiogel.

Maddeuant

Rhodd gan Dduw yw maddeuant (Col. 1:14) ac mae'n dod â ni i brofiad dyfnach o gariad Duw. Mae hefyd yn fater cymhleth yn enwedig i'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin. Ni ddylid annog goroeswyr neu ddioddefwyr cam-drin i faddau'n ddiatomod pan na allant wneud y penderfyniad hwn. Rhaid cydnabod deinameg pŵer mewn cyfarfyddiadau bugeiliol fel nad yw goroeswyr neu ddioddefwyr yn teimlo'n ddi-rym ac felly'n methu â myfyrio ar eu profiadau. Mae'n amhriodol felly awgrymu i ddioddefwr neu oroeswr cam-drin ei fod wedi methu os nad yw'n maddau i'r camdriniwr neu y bydd ei gynnydd yn cael ei amharu neu ei beryglu. Mae maddeuant yn fater hynod bersonol. I rai, bydd yn agwedd bwysig ar eu hiachâd a bydd yn dod â heddwch a chau. I eraill, gellir barnu ei fod naill ai'n ddiangen neu hyd yn oed yn amhriodol oherwydd nad yw'r camdriniwr wedi dangos edifeirwch. Bydd angen i bawb deithio ar eu cyflymder eu hunain ac mewn ffordd y gellir ei rheoli. Mae'r cwestiwn o faddeuant yn un y gallai dioddefwr neu oroeswr ddymuno ei archwilio mewn sgwrs â Christion sy'n fedrus mewn gwranddo a gofal bugeiliol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gallu darparu cymorth o'r fath, ond ni ddylid gwneud i unrhyw ddioddefwr na goroeswr deimlo bod hyn yn angenrheidiol.

Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y dioddefwr neu'r goroeswr yn teimlo bod croeso iddo a'i fod yn cael ei gefnogi yn ei eglwys, yn enwedig pan fo'r niwed neu'r gamdriniaeth a brofwyd yn hysbys yn y gynulleidfa, efallai ar ôl arestio camdriniwr. Mae'n hanfodol nad yw cymuned yr eglwys yn dyfalu ar y gamdriniaeth nac yn beio'r dioddefwr neu'r goroeswr mewn unrhyw fodd am siarad am eu profiad.

Gelwir yr eglwys i ddarparu gofod diogel lle gall pobl ddarganfod heddwch, derbyniad a chroeso cariadus.

Cefnogi Dioddefwyr a Goroeswyr mewn Tribiwnlys

Pan ofynnir i ddioddefwyr a goroeswyr gymryd rhan mewn prosesau mewnol megis rhoi tystiolaeth mewn tribiwnlysoedd, mae'n bwysig eu bod yn cael cynnig cymorth ar bob lefel. Os gofynnir iddynt fynychu tribiwnlys, dylid rhoi cyfle iddynt fynd â chefnogwr gyda hwy a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dylid eu diogelu rhag cyswllt uniongyrchol â'u camdriniwr neu gamdriniwr honedig mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath, oni bai eu bod yn gofyn yn benodol fel arall, ac os felly rhaid rheoli'r sefyllfa'n ddiogel ac yn sensitif.

Dylai anghenion lles dioddefwyr a goroeswyr gael y sylw pennaf drwy gydol y prosesau hyn a dylid trafod eu hanghenion o'r dechrau.

Cefnogi Gweithwyr

Mae gan yr eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinidogaeth fugeiliol sensitif i bawb sy'n ymwneud ag achosion o gam-drin. Pan fydd diogelwch yr unigolyn wedi'i sicrhau, mewn achos o amheuaeth o gam-drin, mae'n hanfodol fod yr eglwys yn creu strwythurau lle gellir cynghori a chefnogi gweithwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn dyst i niwed neu y datgelwyd camdriniaeth iddynt. Mae angen sgiliau i ddarparu gweinidogaeth fugeiliol ac mae'n waith cymhleth a heriol ac ni ddylid tanbriso'r straen o ddarparu hyn dros gyfnod estynedig, megis mewn achos llys. Bydd angen cymorth ar y rhai sy'n gwneud hyn, ac efallai cyngor proffesiynol, arweiniad ac o bosibl cwnsela, a dylai hyn fod ar gael os bydd angen.

Cymorth i Ddioddefwyr a Goroeswyr

Mannau Diogel

<https://www.safespacesenglandandwales.org.uk>

0300 303 1056

Mae Mannau Diogel yn wasanaeth cymorth annibynnol am ddim, sy'n darparu lle cyfrinachol, personol a diogel i unrhyw un sydd wedi cael ei gam-drin gan rywun yn yr Eglwys neu o ganlyniad i'w berthynas ag Eglwys Loegr, yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru.

New Pathways

<http://www.newpathways.org.uk>

01685 379 310

Cwmni elusennol cofrestredig yw New Pathways sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cwnsela ac eiriolaeth arbenigol i fenywod, dynion, plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan drais rhywiol neu gam-drin rhywiol.

Survivors Trust

0808 801 0818

www.thesurvivorstrust.org

Asiantaeth ymbarél yw'r Survivors Trust ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol a cham-drin rhywiol arbenigol yn y DU ac mae'n darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth a therapi i oreeswyr.

MACSAS**0808 801 0340**

(Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors)

www.macsas.org.uk

Mae MACSAS yn cefnogi menywod a dynion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, fel plant neu oedolion, gan weinidogion, clerigion, neu eraill yn enw'r Eglwys. Mae MACSAS yn cefnogi'r goroeswyr sydd wedi aros o fewn eu cymunedau Cristnogol a'r rhai sydd wedi gadael.

NAPAC**0808 801 0331**

(National Association for People Abused in Childhood)

<https://www.napac.org.uk>

Mae NAPAC yn cynnig cymorth i oedolion sy'n oroeswyr pob math o gamdriniaeth plant, gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod.

Broken Rites<https://www.brokenrites.org>

Grŵp rhyngwladol yw Broken Rites sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ar y cyd i wŷr a gwragedd a phartneriaid clerigion, gweinidogion a Swyddogion Byddin yr Eglwys sydd wedi gwahanu a chael ysgariad.